# Y CABINET DYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2025

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, Craig ab Iago, R. Medwyn Hughes, Huw Wyn Jones, June Jones, Dewi Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen a Paul John Rowlinson.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen, (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) a Vera Jones (cofnodi).

Eitem 6: Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Sandra Jones- Parry (Arweinydd Ardal Eifionydd a Gogledd Meirionnydd – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).

Eitem 7-9: Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol).

Eitem 11 –12: Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion i'r cyfarfod gan Arweinydd y Cyngor.

Diolchwyd i holl staff y Cyngor a fu'n gweithio dros gyfnod y Nadolig i sicrhau darparu gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2024 fel rhai cywir.

## 6. TREFINIADAU GOFAL DYDD YN ARDALOEDD BLAENAU FFESTINIOG A CRICIETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan.

**PENDERFYNIAD**

- **Fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn dirwyn i ben defnydd Y Ganolfan, Blaenau Ffestiniog ac yn Encil y Coed, Criccieth ar gyfer darparu eu gwasanaethau gan nad oes gwasanaethau gofal dydd wedi eu cynnig yn Y Ganolfan, Blaenau Ffestiniog nag yn Encil y Coed, Cricieth ers cyn cyfnod Covid**

- **Cefnogi bwriad yr Adran i barhau i gydweithio gyda grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i gefnogi unigolion yn yr ardaloedd uchod yn eu cartrefi a thrwy ddefnyddio a chefnogi datblygiad gwasanaethau amgen o fewn y cymunedau**.

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi newid y ffordd y mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, gan hyrwyddo yr angen i ddarparu cefnogaeth i drigolion yn y gymuned a hynny heb fod ynghlwm ag adeilad yn unig. Nodwyd bod y ddwy ganolfan eisoes wedi cau a bod yr argymhellion yn cyd-fynd â gofynion y Ddeddf.

Nodwyd fod hwb eisoes wedi ei sefydlu ym Mlaenau Ffestiniog gan Gwmni'r Dref Werdd, gyda'r hwb yn datblygu'n gyson. Ymddiheurwyd fod angen cywiro'r adroddiad ynghylch ardal Porthmadog, gan nodi fod trafodaethau wedi cychwyn ar gyfer sefydlu hwb yno i'r dyfodol yn hytrach na fod hwb yn bodoli yno eisoes. Yn ogystal nodwyd fod cydlynydd Llesiant wedi eu penodi sy'n bwrw ymlaen gyda'r gwaith o sefydlu gweithgareddau gwahanol i'r hyn a ddarparwyd yn y gorffennol yn Encil y Coed.

Nodwyd fod y Pwyllgor Craffu eisoes wedi cael mewnbwn i'r newid yn y ddarpariaeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r 3ydd sector yn gallu parhau i gefnogi'r gwaith yn y gymuned a pha oblygiadau oedd ar wasanaethau eraill y Cyngor wrth gau Encil y Coed.
    - Mewn ymateb nodwyd fod cryfder y 3ydd sector mewn rhai ardaloedd yn amlwg, fod bylchau mewn ardaloedd eraill ond fod gwaith yn digwydd dan arweiniad yr Adran Economi a Chymuned i ddatblygu'r hybiau. Nodwyd na ellir rhoi gwarant o'u llwyddiant, ond bydd y Cyngor yn gwneud popeth posib i barhau gyda'r cydweithio.
    - Nodwyd hefyd fod pob gwasanaeth arall sy'n cael ei ddarparu o Encil y Coed yn ymwybodol mai ar sail dros dro oedd y ddarpariaeth gwasanaeth gofal o'r lleoliad a'u bod yn ymwybodol o'r newid ar droed, yn cynllunio at hynny ac yn annhebygol o amharu ar wasanaethau eraill o'r adeilad.
- Gofynnwyd hefyd am sicrwydd na fyddai unrhyw unigolyn sydd angen cefnogaeth yn disgyn trwy'r rhwyd a fod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaeth sydd ar gael.
    - Nodwyd fod nifer o'r ymholiadau sy'n cael eu derbyn yn holi ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael yn y gymuned, a bod darpariaeth i unigolion sydd ag anghenion dwys yn cael eu darparu iddynt yn eu cartrefi.

## 7. CYLLIDEB REFENIW 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2024

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2024 o'r gyllideb refeniw, gan nodi bod rhagolygon o orwariant o £8.3 miliwn gan adrannau'r Cyngor, gyda 83% ohono yn y maes gofal oedolion a phlant, a chefnogi'r camau mae'r Prif Weithredwr wedi eu cyflwyno i ymdrin â'r gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd.**

- **Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a'r Aelodau Cabinet perthnasol i wneud nifer o drosglwyddiadau cyllideb angenrheidiol, heb gyfyngiad ar y gwerth, o fewn cyllidebau gwasanaethau yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i adlewyrchu'r pwysau presennol, gan gynnwys yn y maes Anabledd Dysgu, Pobl hŷn, Anabledd Corff ac Iechyd Meddwl.**

- **Cymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol uwchlaw'r taliad cytundebol gwerth £201k i Gwmni Byw'n Iach sydd i'w gyllido o'r gronfa trawsffurfio, gan ddirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Economi mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar swm y gefnogaeth ariannol terfynol uwchlaw y tâl cytundebol gyda Byw'n Iach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.**

- **Cymeradwyo trosglwyddiad o £4,409k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.**

- **Eithrio cymal 16.3.1.(C) o'r Rheoliadau Ariannol a pheidio caniatáu i adrannau gario unrhyw danwariant i'r flwyddyn ariannol nesaf.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2024/25, a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyda manylion yr holl adrannau wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Nodwyd fod rhagolygon o orwariant o £8.3 miliwn gan adrannau'r Cyngor yn dilyn adolygiad diwedd Tachwedd, gyda 83% ohono yn y maes gofal oedolion a phlant. Yn ogystal nodwyd bod rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd pump o'r adrannau yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn, gyda gorwariant sylweddol ar gyfer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd.

Ymhelaethwyd ar y gorwariant fesul Adran, gan nodi fod yr Adran Oedolion yn debygol o orwario £3.3 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn yn sgil cyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys cynnydd yn y gofyn am ddarpariaeth gofal cartref, costau staffio uwch, lefelau salwch a chyfraddau oriau digyswllt yn uchel ar y ddarpariaeth fewnol.

Nodwyd fod gwaith eisoes wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i edrych ar sefyllfa ariannol yr adran gyda'r gwaith yn derbyn sylw.

Adroddwyd bod yr Adran Plant yn debygol o orwario £3.7 miliwn, gyda'r sefyllfa wedi gwaethygu ers adroddiad mis Tachwedd. Nodwyd fod hyn yn bennaf yn sgil costau lleoliadau all-sirol, cymhlethdod pecynnau a defnydd o leoliadau heb eu cofrestru. Nodwyd fod y Prif Weithredwr wedi comisiynu gwaith, i'w arwain gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol i edrych ar y sefyllfa mewn manylder.

Gofynnwyd i'r Cabinet am daliad uwchlaw'r taliadau cytundebol ar gyfer Cwmni Byw'n Iach ar gyfer y swm o £201,000.

Nodwyd y rhagwelir sefyllfa o orwariant o £699,000 gan yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC yn sgil lleihad yn y gwaith sy'n cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sy'n cael effaith ar incwm y gwasanaeth ac y bydd £667,000 o orwariant tebygol gan yr Adran Amgylchedd.

Ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid fod yr adroddiad wedi ei herio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwiliad gan nodi eu bod wedi derbyn yr adroddiad, nodi'r sefyllfa ariannol a'r risgiau, gan ofyn i'r Cabinet roi sylw penodol i'r canlynol:

- i'r gwaith sy'n cael ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr gan ofyn am amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith.
- y sefydlir rhaglen glir i ymateb i'r gwaith am yr Adran Plant ac i'r dadansoddiad gael ei gyflwyno i'r pwyllgor gael ei herio.
- gofynnwyd am wybodaeth sut y mae Gwynedd yn cymharu gydag awdurdodau eraill o ran gorwariant.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Ymhelaethwyd ar y gorwariant gan yr Aelodau Cabinet unigol gan nodi fod sylw'n cael ei roi i'r gorwariant a'r diffyg mewn incwm gan rhai o'r Adrannau, a bod camau gwahanol yn cael eu cymryd i wella'r sefyllfa.
- Nodwyd fod stormydd diweddar wedi effeithio ar y sefyllfa ariannol gan fod yn rhaid darparu gwasanaeth ychwanegol mewn achlysuron o'r fath.
- Tynnwyd sylw hefyd fod gorwariant mewn adrannau yn sgil diffyg cyllideb hanesyddol i wahanol feysydd, gan nodi fod Gwaith Llechen Lân ym maes Gofal eisoes wedi adnabod cynnydd o 18% yn y gwariant i'r dyfodol.
- Nodwyd pryder sylweddol am y darlun ariannol yng Ngwynedd a holwyd beth oedd effaith y system o rybudd cynnar ac a yw'r rhagolygon presennol o or-wariant neu ddiffyg cyllideb yn cael eu defnyddio ar gyfer llunio cyllidebau 2025/26.
    - Mewn ymateb nodwyd fod penderfyniadau anodd iawn i'w gwneud wrth sefydlu cyllideb 2025/26, a bod y galw mae'r gwasanaethau yn eu wynebu yn her llawer mwy na'r camau a gymerir trwy'r system 'rhybudd cynnar' i rewi swyddi ayyb.
    - Nodwyd hefyd fod y term 'gorwariant' yn dechnegol gywir ond ei fod yn adlewyrchu diffyg cyllideb hanesyddol sy'n arwain at ddau ddewis posib, sef peidio darparu gwasanaethau angenrheidiol neu ymateb i ofynion a bod cost ynghlwm â hynny. Nododd y Prif Weithredwr nad oedd peidio darparu'r gwasanaethau yn opsiwn, ac nad oedd unrhyw achosion o danwariant ar ôl bellach i gynorthwyo'r adrannau eraill sy'n gorwario.

Nodwyd y bydd hyn yn arwain at heriau anodd iawn wrth osod cyllideb 2025/26.

- Ymhelaethwyd fod gwasanaethau ataliol megis Byw'n Iach yn bwysig iawn wrth atal gofyn am wasanaethau mwy dwys gan wasanaethau eraill megis Gofal a'r Bwrdd Iechyd.
- Nododd yr Arweinydd neges benodol i Lywodraeth Cymru fod ffynhonnell cyllido Cyngor Gwynedd yn isel o gymharu ag awdurdodau eraill gan erfyn arnynt i wrando ac ymateb i'r diffyg cyllideb cyfredol, yn arbennig wrth ddarparu gwasanaethau i bobl bregus.

## 8. RHAGLEN GYFALAF 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2024

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2024) o'r rhaglen gyfalaf.**

- **Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 7 Mawrth 2024 ac a addaswyd ar 15 Hydref 2024 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:**
    - **cynnydd o £166,000 mewn defnydd o fenthyca**
    - **cynnydd o £4,112,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau**
    - **cynnydd o £420,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw**
    - **cynnydd o £697,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad am raglen gyfalaf ddiwygiedig y Cyngor a'r addasiadau i'r ffynonellau ariannu perthnasol. Nodwyd mai'r prif gasgliadau oedd fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £102.7 miliwn yn 2024/25 ar gynlluniau cyfalaf gyda £51.1 miliwn, neu 50% ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol. Adroddwyd ymhellach fod £19.7 miliwn ychwanegol wedi ei ail broffilio o 2024/25 i 2025/26 a 2026/27 ac amlygwyd fod y Cyngor wedi llwyddo i ddenu grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf gan gynnwys £1.626 mil o Grant Cronfa Ffyniant Bro, £725 mil o grant gan Lywodraeth Cymru tuag at Gynllun Prom y Gogledd, Abermaw, ymysg eraill.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Nododd y Prif Weithredwr y newyddion da fod y Cyngor wedi llwyddo i ddenu grantiau ychwanegol o £4.1 miliwn ers y cyfarfod diwethaf, gan nodi fod mwy o newyddion da yn debygol o fod ar ei ffordd

## 9. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2024/25 a blynyddoedd blaenorol.**

- **Cymeradwyo dileu un cynllun arbedion gwerth £146,910 perthnasol i 2025/26 yn y maes gwastraff yn yr Adran Amgylchedd, gan ddefnyddio'r ddarpariaeth a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb er mwyn gwneud hynny.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad yn crynhoi sefyllfa arbedion y Cyngor gan nodi fod £5.6 miliwn o arbedion i'w gweithredu yn 2024/25. Eglurwyd fod 98%, sef £33.8 miliwn o'r £34.3 miliwn o arbedion sydd wedi eu hadnabod o'r cyfnod 2015/16 hyd at 2024/25 bellach wedi eu gwireddu. Yn ychwanegol, nodwyd fod 67% o'r cynlluniau arbedion newydd gwerth £12 miliwn eisoes wedi eu gwireddu, gyda 6% pellach ar drac i gyflawni'n amserol. Nodwyd risgiau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd megis Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Amgylchedd.

Yn ogystal, nodwyd y bwriad i uno tri cynllun arbedion ym maes gwastraff masnachol, dileu un cynllun casglu clytiau gwerth £147,000 a bod cynlluniau amgen yn cael eu cynnig ar gyfer gwerth £300,000 o gynllun gwastraff £400,000.

I grynhoi, nodwyd bod £42 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu, sy'n 90% o'r £46.6 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Rhagwelir y bydd 2% pellach yn cael ei wireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ond fod oediad a rhai risgiau i gyflawni'r cynlluniau sy'n weddill.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd fod y sefyllfa arbedion yn ddychrynllyd.
- talwyd teyrnged a diolch i holl staff sy'n parhau i gyflawni'n ddyddiol dan bwysau a llwyth gwaith uchel yn sgil y toriadau sydd eisoes wedi eu gwireddu.
- Yn ogystal, nodwyd fod y toriadau yn gyd-destun i osod cyllideb 2025/26, gan gofio fod £74 miliwn wedi ei dorri o gyllidebau'r Cyngor dros y 14 mlynedd diwethaf, sydd wedi arwain at y sefyllfa o or-wario neu dan gyllido.

**10. CYNLLUN YMATEB I DROSEDDU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.

**PENDERFYNIAD**

- **Cymeradwyo a mabwysiadu y Cynllun Ymateb yn Atodiad 1.**

- **Galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Ymchwiliad Cyhoeddus i'r holl amgylchiadau ynghlwm â'r troseddu difrifol hwn.**

- **Comisiynu'r Prif Weithredwr i roi trefniadau mewn lle i weithredu cynnwys y Cynllun Ymateb hwn gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen penodol ac adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Cabinet.**

- **Awdurdodi’r Prif Weithredwr i sefydlu a threfnu’r adnoddau a chapasiti staffio dros dro sydd eu hangen i wireddu cynnwys y Cynllun hwn gan ariannu o gronfeydd wrth gefn.**

- **Nodi fod y Cynllun Ymateb yn gynllun byw fydd angen ei adolygu'n rheolaidd ac yn y cyd-destun hwnnw gofyn i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi graffu y Cynllun fel rhan o’u Rhaglen waith.**

- **Dirprwyo’r hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinydd, yr Aelod Cabinet Addysg a'r Aelod Cabinet Plant, i wneud mân addasiadau golygyddol fel bo'r gofyn.**

**TRAFODAETH**

Wrth gyflwyno’r adroddiad pwysleisiwyd mai’r dioddefwyr sydd wrth graidd y cynllun hwn a thalwyd teyrnged i ddewrder a gwydnwch y dioddefwyr a phawb sydd wedi eu heffeithio gan y troseddau erchyll a gyflawnwyd. Dyfynnwyd darn o’r adroddiad “*ni allwn am eiliad anghofio am y rhai pwysicaf yng nghanol hyn, sef y merched a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol. Holl bwrpas y Cynllun Ymateb hwn a phob cam sy’n cael eu cymryd gennym yw gwneud popeth posib i sicrhau na fydd neb yn dioddef yn yr un modd fyth eto, a dyna ddylai fod ar frig ein hystyriaethau pob amser.*”

Nododd yr Arweinydd ei bod wedi ymddiheuro i’r dioddefwyr, a’i bod yn benderfynol o droi pob carreg i sefydlu beth aeth o’i le. Nodwyd mai pwrpas y cynllun yw gosod yr holl waith sy’n digwydd i fynd i’r afael a’r sefyllfa mewn un dogfen fyw, gyda chyrff allanol wedi rhoi mewnbwn ac arweiniad, ac am roi mewnbwn pellach wrth i’r cynllun gael ei ddatblygu i’r dyfodol. Pwysleisiwyd ei bod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei haddasu wrth i wersi ddod i’r amlwg ac wrth i’r sefyllfa ddod yn fwy eglur. Pwysleisiwyd y chwe prif amcan cyfredol fel a nodwyd yn yr adroddiad, gan amlinellu’r camau nesaf o sefydlu Bwrdd Rhaglen dan arweiniad person annibynnol er mwyn mesur cynnydd ac adnabod unrhyw fylchau. Nodwyd na fyddai’r cynllun yn troi’r cloc yn ôl nac yn dad wneud yr hyn a ddigwyddodd i’r dioddefwyr.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr yr effaith ysgytwol ar y dioddefwyr yn bennaf, ac ar yr ysgol, y gymuned ehangach ac ar y Cyngor. Nodwyd ei bod yn sefyllfa unigryw sy’n datblygu’n ddyddiol, gyda’r cam cyntaf wedi ei sefydlu trwy drefniadau statudol yr Adolygiad Ymarfer Plant gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Ymhelaethwyd ar y 6 nod a’r pedair ffrwd gwaith yn y Cynllun. Pwysleisiwyd y byddai pob carreg yn cael ei throi gan fod yn agored a thryloyw gyda’r gwaith.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth:

- Datganwyd cefnogaeth i’r ymweliadau monitro diogelwch mewn ysgolion a’r awydd i’w addasu i fod yn ymweliadau blynyddol.
- Croesawyd fod y Pwyllgor Craffu yn bwriadu cynnal ymchwiliad fel rhan o’r cynllun, a’r gwaith pwysig fydd gan y pwyllgor yn craffu’r cynnydd ar y cynllun i’r dyfodol.

- Croesawyd manylder y rhaglen, mewnbwn yr arbenigwyr allanol a'r ffaith ei bod yn rhaglen fyw. Pwysleisiwyd fod y Bwrdd Rhaglen am gael ei gadeirio gan berson annibynnol.
- Gofynnwyd am sicrhad fod cefnogaeth yn parhau i gael ei roi i'r dioddefwyr wrth i sylw ddod i'r cynllun ac wrth i bob ymchwiliad adrodd
    - Mewn ymateb nodwyd fod cefnogaeth yn cael ei roi i'r dioddefwyr, gyda mwy o gymorth i'w roi i'r dyfodol. Nodwyd yr angen i sicrhau fod hynny'n digwydd mewn modd sensitif a phriodol, dan arweiniad y dioddefwyr
- Talwyd teyrnged i staff a disgyblion Ysgol Friars a gofynnwyd am y gefnogaeth i'w cynnal hwy
    - Mewn ymateb nodwyd fod cefnogaeth yn cael ei ddarparu i Lywodraethwyr a thîm rheoli'r ysgol gyda'r angen i ddatblygu cefnogaeth i holl staff yr ysgol gan atgoffa fod gwasanaeth cwnsela ar gael i'r disgyblion. Nodwyd fod cefnogaeth barhaus ar gael gan yr Awdurdod trwy'r bwrdd cefnogi'r ysgol
- Croesawyd pwyslais y cynllun ar weithredu a'r ymrwymiad i weithredu wrth i wybodaeth ddod i law.
- Diolchwyd i'r Prif Weithredwr, holl staff yr Adran Addysg a'r holl adrannau perthnasol am y gwaith sy'n digwydd ganddynt ynghlwm a'r uchod.

## 11. TERFYNU CYTUNDEB PARTNERIAETH GWE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

**PENDERFYNIAD**

- **Terfynu'r gytundeb cydweithio presennol a thrwy hynny gadarnhau y bydd GwE, gan gynnwys Cyd-Bwyllgor GwE, yn dod i ben ar y 31 o Fai, 2025.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad ynghylch diweddu'r partneriaeth rhwng 6 awdurdod y gogledd i ddarparu gwasanaeth gwella ac effeithlonrwydd ysgolion y gogledd trwy GwE a sefydlwyd yn 2013. Adroddwyd fod Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bwriad i symud oddi wrth y model rhanbarthol o gefnogi a gwella ysgolion gyda'r gefnogaeth i'w ddarparu gan awdurdodau lleol. Cadarnhawyd y byddai'r gefnogaeth yn dod i ben ar 31ain o Fai, 2025.

Nodwyd yr angen i ffurfioli terfynu'r cytundeb.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Gofynnwyd pam fod cydweithio rhanbarthol yn dod i ben pan fo hyn fel arfer yn cael ei adnabod fel ymarfer da
    - Mewn ymateb nodwyd fod y penderfyniad wedi ei wneud gan Weinidog Addysg, yn sgil casgliadau gwaith adolygu manwl. Datganwyd y byddai cydweithio gyda Môn yn parhau, gyda anghenion Gwynedd am gael eu hamlygu.
- Nodwyd y byddai mwy o waith yn disgyn ar swyddogion Gwynedd a chwestiynwyd y sicrwydd o lwyddo i recriwtio'n llwyddiannus i'r maes
    - Mewn ymateb nodwyd fod cynllun ar gyfer ail strwythuro mewn lle a threfniadau ar y gweill i weithredu hynny gan ystyried cefnogaeth briodol i'n

ysgolion. Cydnabuwyd fod recriwtio am fod yn her, ond bydd pob ymdrech yn cael ei wneud gan yr Adran Addysg.

## 12. ADRODDID PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad yn manylu ar berfformiad yr Adran Addysg gan dynnu sylw at uchafbwyntiau diweddar, gan gynnwys fod Ysgol Treferthyr wedi agor ei drysau i 150 o ddysgwyr ym Medi 2025 a bod gwaith wedi cychwyn ar safle hen Ysgol Glanadda. Ymfalchïwyd fod y Gwasanaeth ieuenctid wedi llwyddo i recriwtio Cydlynydd Ymgysylltu gan arwain ar ail sefydlu Fforwm Gwasanaethau Pobl Ifanc i roi gwell cefnogaeth i bobl ifanc.

Yn ogystal, adroddwyd fod £1.1 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i gefnogi sefydlu'r ddarpariaeth drochi ar ei newydd wedd yn Mangor, Ysgol Eifionydd a Tywyn. Agorwyd drysau'r uned newydd yn Ysgol Tywyn yr wythnos hon. Adroddwyd hefyd fod gwerthusiad o'r gyfundrefn drochi yn mynd yn ei flaen er mwyn sicrhau gosod Sylfaen gadarn i ddarpariaeth Gymraeg yn y sir.

Adroddwyd fod y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad wedi llwyddo i ostwng y dyddiau aros am wasanaeth cwnsela o 51 diwrnod i 21 diwrnod ers dechrau'r flwyddyn addysgol. Yn ogystal, nodwyd fod cynnydd yn y nifer o brydau Ysgol sy'n cael eu gweini, gyda chyfartaledd o 4851 eu darparu ar unrhyw un diwrnod ers Medi 2024, sy'n gynnydd o berfformiad 2023/24.

Nodwyd hefyd fod y cynlluniau arbedion ar drac i'w gwireddu, ond fod cynllun amgen gwerth £41,000 wedi ei gyflwyno ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Trafodwyd y gwaith ardderchog gan yr Uned Blynyddol Cynnar wedi ei gyflawni ynghylch newid y ffordd o feddwl a thrafod clytiau trwy eu podlediad, sy'n galluogi trafod y mater yn agored. Gofynnwyd hefyd a oes problem yng Ngwynedd ynghylch plant sy'n cychwyn yr ysgol yn parhau mewn clytiau.
    - Mewn ymateb nodwyd fod angen ymdrin â'r sefyllfa yn sensitif a chynnig cefnogaeth i deuluoedd, gan gofio fod pob plentyn yn wahanol. Ar yr un pryd nodwyd fod mwy o blant yn yr ysgolion heb fod yn sych a bod angen galluogi'r ysgolion i ganolbwyntio ar addysgu disgyblion yn hytrach na newid plant.
- Croesawyd y gwaith ysgolion cynaliadwy sy'n cael eu codi i safon uchel iawn gan nodi fod pwyslais mawr ar ail ddefnyddio nifer o bethau megis brics a hen gelfi mewn prosiectau arall gan leihau ôl troed carbon y Cyngor.

- Croesawyd Fforymau Llais Pobl Ifanc, gan gofyn os oes darpariaeth addas i ieuenctid ar draws y Sir, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig,
    - Mewn ymateb nodwyd fod gwaith i'w wneud i adnabod y gefnogaeth sy'n bodoli ac adolygu'r ddarpariaeth sydd ar gael
- Holwyd beth oedd y camau nesaf yn dilyn ymgysylltu ac adolygu polisi trochi Gwynedd
    - Nodwyd y byddai adroddiad llawn ar gael i'r Cabinet ddiwedd mis Mawrth, gydag adroddiad diweddaru i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi cyn hynny.

## 13. ADRODDID PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS CYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad yn manylu ar berfformiad yr Adran Gyllid gan ymfalchïo fod perfformiad yr Adran yn parhau yn galonogol. Tynnwyd sylw fod Prosiectau blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor yn dangos cynnydd da ar y ddau gynllun dan eu gofal, sef cyflawni ar y cynllun Arbedion, a Cynllun Digidol y Cyngor.

Ymhelaethwyd ar y Cynllun Digidol yn unig gan nodi fod posibilrwydd o orfod ystyried cwtogi oriau'r ddesg gymorth TG yn sgil colli un swydd yn ddiweddar, fod pob cyfrifiadur yn cael ei uwchraddio o Windows 10 i Windows 11, a bod system 'top desk' a system ffon y Cyngor yn cael eu symud i'r cwmwl. Cadarnhawyd fod Diogelwch seibr yn parhau'n flaenoriaeth, gyda'r Cyngor yn arweinydd ar waith Diogelwch seibr ar draws Cymru.

Nodwyd hefyd fod Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cwblhau 30% o'r cynllun Archwilio yn unig gan fod blaenoriaeth wedi ei roi i gyflawni gwaith ar y Gronfa Ffyniant cyffredin, sy'n denu incwm. Nodwyd hefyd fod prisiau i weinyddu cyfrifon Cynghorau Cymuned am gynyddu fymryn gan fod y Cyngor wedi bod yn gwneud hyn ar golled.

Adroddwyd fod £2,117.000 o incwm dyledus, gyda gwaith olrhain y sefyllfa yn digwydd ar fyrder. Nodwyd hefyd fod cyfradd casglu trethi y Cyngor wedi llithro gyda cyfradd yn Is na'r gorffennol, gyda'r llithrad yn sgil cynnydd yn y dreth Cyngor a nifer o bobl yn methu a thalu, ond fod y cylch adfer yn mynd rhagddo. Cydnabuwyd gwaith caled yr holl Adran.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Gofynnwyd am wybodaeth bellach i'r Aelodau Cabinet ynghylch defnydd y Cyngor o ddeallusrwydd artiffisial
    - Mewn ymateb nodwyd yr angen i ymchwilio ymhellach, i sicrhau fod unrhyw ddatblygiad yn gweithio gyda'r Iaith Gymraeg, a bod angen mewnbwn pobl ar adegau.

- Nodwyd y byddai'r Aelod Cabinet yn adrodd ar yr adolygiadau ym maes treth Cyngor ac incwm i'r dyfodol
- Nodwyd diolch i'r Adran Budd-daliadau hefyd am hyrwyddo'r budd daliadau sydd ar gael yn arbennig i bobl bregus.

## 14. BLAENRAGLEN Y CABINET

Nodwyd fod yr eitem gerbron er gwybodaeth i'r Aelodau Cabinet.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00 y prynhawn a daeth i ben am 3:15 y prynhawn

**CADEIRYDD**